Cenn@d

TACHWEDD 20 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 195

# Bedyddio a derbyn wyth o aelodau yng Nghaersalem, Dyfed, a Smyrna, Cas-mael



Disgrifiwyd 20 Hydref nifer o weithiau yn ystod y prynhawn hwnnw fel ‘diwrnod mawr’. Yn wir, mewn oes pan welir cilio oddi wrth grefydd a thrai mewn aelodaeth eglwysi, sut arall y gellid disgrifio’r hyn a ddigwyddodd yng Nghaersalem y diwrnod hwnnw? Y prynhawn Sul hwnnw, o flaen tyrfa fawr iawn o bobl, gwelwyd wyth o bobl ifainc yr ardal yn tystio ar gyhoedd eu bod am ‘ddilyn Iesu’. Arweiniwyd yr wyth ymgeisydd – Hawys, Efa, Gethin, Ifan ac Osian o Gaersalem, ac Alaw, Mari a Rhys o Smyrna, Cas-mael – i lawr i’r fedyddfan gan y diaconiaid, a phump ohonynt yn gwneud y dasg honno am y tro cyntaf un.

Cyn mynd at ymyl y fedyddfan, cynhaliwyd oedfa tu hwnt o fendithiol yn y capel o dan ofal gweinidog anrhydeddus yr eglwys, y Parchg Alwyn Daniels, pryd y cyflwynwyd neges o anogaeth a her i’r bobl ifainc a’r gynulleidfa niferus. Wedi ordinhad y bedydd, braf oedd cael ymuno gyda’r bobl ifainc a’u teuluoedd a’u ffrindiau mewn cymdeithas yn y capel dros disied a theisen.

Ymhen pythefnos, ar 10 Tachwedd, ar Sul y Cofio, cafwyd oedfa gymun hwyrol i’w chofio, yng ngwir ystyr y gair, wrth i’r pump a fedyddiwyd gael eu derbyn yn gyflawn aelodau o eglwys Caersalem. Cafodd y tri arall a fedyddiwyd ar yr un diwrnod eu derbyn y prynhawn hwnnw’n aelodau yn Smyrna, Cas-mael. Yn ei ddarlleniad cafwyd un o’r hanesion amrywiol am ‘Gaersalem’ a welir yn yr Ysgrythurau, a chyflwynodd y Parchg Alwyn Daniels neges amserol i’r aelodau newydd a hen. Atgoffodd bawb am bwysigrwydd gwybod lle rydych ar eich taith ysbrydol a bod yn barod i dderbyn o’r goleuni a dreiddiodd o amrywiol leoedd a digwyddiadau ar hyd y daith wrth gerdded gydag Iesu.

Wrth estyn deheulaw cymdeithas, derbyniwyd Osian, Ifan, Gethin a Hawys James ac Efa Lewis yn gyflawn aelodau, a’r pump yn cyfranogi o’r Cymun am y tro cyntaf erioed. Rhyfedd iawn oedd eu croesawu i’r eglwys ar ôl yr oedfa, gan fod pob un ohonynt wedi hen arfer dod i’r oedfaon a’r ysgol Sul ers yn ifanc iawn ac eisoes yn rhan o’r eglwys.

Diolch o waelod calon i’r Parchg Alwyn Daniels a fu’n weinidog da a ffyddlon i’r eglwys yng Nghaersalem ers 1985. Mae wedi ymddeol bellach, ond nid oes eisiau rhywun doeth iawn i ddeall mai ffrwyth ei lafur ef yw’r hyn sydd wedi digwydd yng Nghaersalem y flwyddyn hon, wrth inni dderbyn aelodau newydd, a hynny wrth gwrs yn glod i Dduw!

*Bonni Davies*

# Derbyn 21 o aelodau ifanc newydd yng Ngofalaeth Fro Trawsfynydd



Gweinidogaeth fro sydd yn Nhrawsfynydd, a chynhelir prif ddigwyddiadau’r ofalaeth yng Nghapel Moreia, y capel mwyaf, yng nghanol y pentref. Achlysur o’r fath yn ddiweddar oedd derbyn 21 o bobl ifainc y fro yn gyflawn aelodau yn y gwahanol gapeli sy’n rhan o Ofalaeth Trawsfynydd. Mae hyn yn newyddion arbennig o galonogol ac yn argoeli’n gadarnhaol i’r dyfodol.

Mae’r ofalaeth wedi colli ei gweinidog yn y blynyddoedd diwethaf, ond braf oedd manteisio ar wasanaeth y Parch. Iwan Llywelyn Jones, Porthmadog, i gyflawni’r weithred o dderbyn aelodau ar ran y gwahanol gapeli. Torrwyd tir newydd hefyd yn y ffaith fod cyfarfod paratoi a’r derbyn ei hun wedi digwydd ar Zoom i un person oedd filltiroedd i ffwrdd … yn California ! Tybed ai hwn oedd y tro cyntaf erioed i hyn ddigwydd, gyda Llŷr Ellis yn cymryd rhan yn y cyfarfod, a hynny trwy gyfrwng ffôn?

Gwerthfawrogwyd y naws arbennig oedd i’r gwasanaeth hanesyddol yma a oedd ar brydiau yn bur emosiynol i nifer. Nid yn aml y profir y fath lawenydd mewn oedfa, ond roedd yr achlysur o gael 21 o bobl ifainc gyda’i gilydd yn ysbrydoliaeth, ac rwy’n siŵr i nifer deimlo bod rhywbeth uwchlaw’r dyrchafol yn digwydd yno. A diolch am gael bod yn dyst.

*Gerallt Rhun*



Iwan yn cyfarfod y darpar-aelodau

Dathlu 120 mlwyddiant bendith Blaenannerch
Tudalen 2

‘Wyneb Newydd 2024’: codi merched i arwain ac ysbrydoli
Tudalen 5

Clwb Pêl-fasged Tegid
Tudalen 8

# Dathlu 120 mlwyddiant bendith Blaenannerch

Yn y cyfarfod yng nghapel Blaenannerch, Ceredigion, bnawn Sul, 29 Medi, i nodi union 120 mlynedd er dechrau'r cynnwrf ysbrydol a ddaeth yn Ddiwygiad 1904/05 yn y man, cyflwynwyd neges arbennig ar gyfer achlysur gan y Parch. Ifan Mason Davies. Rydym yn ddiolchgar iddo am gael ei chynnwys yma.

"Atebodd Iesu ef, 'Yn wir, yn wir, 'rwy'n dweud wrthyt, oni chaiff rhywun ei eni o'r newydd [neu oddi uchod] ni all weld teyrnas Dduw.'" (Efengyl Ioan 3:3)

Er fy mod yn teimlo'n annigonol iawn, rwy'n ei cyfri'n fraint cael bod yma i ddathlu'r digwyddiad hanesyddol yma gyda chi. Rwy'n ddiolchgar am yr arweiniad yn y cais i bregethu ar yr ailenedigaeth. Mae wastad yn help i bregethwr i gael testun parod.

Felly, yr adnod uchod fydd testun fy neges.

Mae Nicodemus yn dod at yr Arglwydd Iesu wedi iddi nosi, yn ddiarwybod i'w gyd-Phariseaid gan roi *compliment* iddo. Roedd yn cydnabod na allai'r Arglwydd wneud yr arwyddion arbennig yma heb fod Duw gydag ef. Yn hytrach nag ymfalchïo yn y deyrnged, mae'r Arglwydd yn ei herio â rheidrwydd yr ailenedigaeth cyn iddo fedru gweld a bod yn rhan o deyrnas Dduw. Mae hyn yn cael ei bwysleisio eto yn adnod 5: "Yn wir, yn wir rwy'n dweud wrthyt, oni chaiff rhywun ei eni o ddŵr a'r ysbryd ni all fynd i mewn i deyrnas Dduw" ac yna, yn adnod 7: "Paid a rhyfeddu i fi ddweud wrthyt, 'Y mae'n rhaid eich geni chwi o'r newydd'."

Mae ymateb Nicodemus yn syndod gan ei fod yn athro crefyddol ac yn gyfarwydd â geiriau Eseciel 36: 26,27 yn yr Hen Destament. Yno, mae'n dweud ar ran yr Arglwydd: "Rhof i chwi galon newydd a bydd ysbryd newydd ynoch; tynnaf allan ohonoch y galon garreg a rhof i chwi galon gig. Rhof fy ysbryd ynoch, a gwneud i chwi ddilyn fy neddfau a gofalu cadw fy ngorchmynion."

Mae'r adnodau canlynol yn dod i gof hefyd:

"Ond cynifer ag a'i derbyniodd Ef [Iesu Grist], rhoddodd iddynt, y rhai sy'n credu yn Ei enw, hawl i ddod yn blant Duw, plant wedi eu geni nid o waed nac o ewyllys cnawd nac o ewyllys gŵr, ond o Dduw." (Ioan 1:12,13)

"Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! O'i fawr drugaredd fe barodd Ef ein geni o'r newydd i obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw, i etifeddiaeth na ellir na'i difrodi, na'i difwyno, na'i difa. Saif hon ynghadw yn y nefoedd i chwi." (1 Pedr 1:3,4)

"Ond gan mor gyfoethog yw Duw yn ei drugaredd, a chan fod Ei gariad atom mor fawr, fe'n gwnaeth ni, ni oedd yn feirw yn ein camweddau, yn fyw gyda Christ. Trwy ras yr ydych wedi eich achub." (Effesiaid 2:4,5)

Gweithred sofran Duw yw hyn mewn unigolyn trwy waith yr Ysbryd Glân, gwaith sy'n cael ei gyffelybu i'r gwynt yn adnod 8: heb ei weld ond yn ei deimlo a gweld ei effaith.

Diwygiad personol yw ailenedigaeth bob amser, ond mewn cyfnod o fendith anarferol fel Diwygiad 1904 ac eraill, mae'r profiad yn dod i niferoedd o bobol yr un pryd. Mae'n effeithio ar gymunedau cyfain o ganlyniad, ac yn newid naws a safon bywyd yn gyffredinol. Yn aml iawn, y bobol fwyaf dinod sy'n gallu cael dylanwad sy'n parhau. Roedd pobol ein hardal ni yn dal i sôn am gwrdd gweddi yn y capel lle byddwn i'n mynd yn blentyn. Yn hwnnw cafodd Mary Morgan, Bwa Drain, y fath eneiniad fel roedd pawb yn teimlo fel petai'r nefoedd wedi dod i lawr. Pan fu farw yn 1920, ei geiriau olaf oedd: "O, Iesu, rwyt yn fendigedig. Diolch! Diolch! Diolch!"

Pam mae angen ailenedigaeth? Oherwydd cyflwr truenus y ddynoliaeth o ardd Eden ymlaen – dyna'r ateb y mae'r Beibl yn ei roi. Roedd y gwymp honno'n llawer gwaeth na syrthio oddi ar ysgol neu risiau, ac yn fwy tebyg i gwympo o ben *skyscraper*. Pa obaith wedyn? Cwymp farwol yw honno, a marwolaeth ysbrydol yn gadael i'r hunan balch reoli ym mywyd pob un byw. Mae'r negesydd Jeremeia yn disgrifio hyn: "Y mae'r galon yn fwy ei thwyll na dim, a thu hwnt i iachâd: pwy sy'n ei deall hi?" [Jeremia 17:9]

Mae digon o enghreifftiau, ond rhaid cofio nad yw pawb sy'n honni bod yn 'born again' wedi cael y bywyd newydd yma, yn enwedig yn yr Unol Daleithiau lle mae'n ffasiynol i fynd i'r eglwysi enfawr ond byw yn ôl ffasiwn y byd. Mae gwahaniaeth rhwng crefydd a gwir Gristnogaeth.

Sylwn ar rai sydd wedi profi gwir ailenedigaeth:

Roedd John a Charles Wesley a George Whitefield yn rhan o'r Diwygiad mawr yn yr ynysoedd hyn ac yn America. Roedden nhw'n grefyddol a selog yn yr Holy Club yn Rhydychen ac yn gwneud gwaith dyngarol yn gyson. Rhoddodd Susannah Wesley lyfr i'w meibion a gafodd ddylanwad mawr arnyn nhw ac ar Whitefield, sef *The Life of God in the Soul of Man* (H. Scougal). Daeth hynny'n brofiad i John mewn capel bach yn Aldersgate Street yn Llundain a chlywed fel petai am y tro cyntaf beth oedd yr Arglwydd Iesu wedi'i wneud drosto: "I felt my heart strangely warmed and I trusted Christ alone for my salvation". Cynhesrwydd gwahanol oedd hwn a barodd iddo ymddiried yng Nghrist yn llwyr heb ddibynnu ar ei weithredoedd mwyach.

A beth am Awstin Sant? Bu'n byw bywyd gwarthus ymhell o fod yn sant, ei chwant rhywiol yn drech nag ef ac yn cadw o leiaf ddwy ordderchwraig nes iddo gyrraedd ei dridegau. Roedd ei fam dduwiol yn gweddïo drosto. Dechreuodd deimlo'n grac ag ef ei hunan ac un diwrnod newidiodd y cyfan. Wrth eistedd mewn gardd clywai lais plentyn yn galw: "Cymer a darllen. Cymer a darllen". Darllenodd ei Feibl yn Rhufeiniaid 13:13,14: "Gadewch i ni fyw yn weddus, fel yng ngolau dydd, heb roi dim lle i loddest a meddwdod ac anlladrwydd, i gynnen ac eiddigedd. Gwisgwch yr Arglwydd Iesu Grist amdanoch: a pheidiwch â rhoi eich bryd ar foddhau chwantau'r cnawd." Cafodd fywyd newydd a daeth yn bregethwr efengyl feiblaidd yn y ganrif gyntaf, ymhell cyn y Diwygiad Protestannaidd.

Roedd C. S. Lewis, yr awdur toreithiog, yr athro a'r meddyliwr mawr yn Rhydychen, heb unrhyw awydd mawr i fod yn Gristion ond wedi bod yn trafod llawer gyda Tolkein, awdur llyfrau'r Hobbit, ac yn y blaen. Am ryw reswm, drannoeth aeth am dro ar y bws i Whipsnade Zoo. Cyn cyrraedd adre roedd wedi dod i gredu bod Iesu Grist yn fab Duw a'r cyfan yr oedd hynny'n ei olygu. Ei dystiolaeth ef oedd ei fod fel petai wedi deffro o gwsg hir! Dyna ddechrau ar fywyd newydd ar ol ei ailenedigaeth.

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Dathlu 120 mlwyddiant bendith Blaenannerch*
*(parhad o dudalen 2)*

Daw geiriau Williams, Pantycelyn, i gof pan oedd yn dod yn ôl o'r athrofa lle'r oedd yn paratoi i fod yn feddyg. Clywodd Howell Harris yn pregethu oddi ar garreg fedd ym mynwent eglwys Talgarth. Dyma'i eiriau: "Hyfryd fore, byth mi gofiaf. Mi a glywais lais y nef – daliwyd fi gan wŷs oddi uchod gan ei sŵn dychrynllyd ef". Cafodd fywyd a galwedigaeth newydd i bregethu'r efengyl a chanu am y Gwaredwr.

Gwyrth y mae Rhys Nicholas yn galw'r fath brofiad, a'i emyn enwog yn llawn disgrifiadau o'r hyn a ddigwyddodd iddo: "Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist Fab Duw, / Tydi a roddaist i mi flas ar fyw" ac yna fy hoff linell: "Mae ystyr bywyd ynot ti dy hun".

Dywedodd yr Arglwydd wrth Nicodemus: "Oni chaiff rhywun ei eni o'r newydd, ni all weld teyrnas Dduw". Mae 'gweld' y deyrnas anweledig yma yn cynnwys cael bydolwg newydd. Nid addysg, na chymdeithaseg, nac economeg yw angen dynoliaeth ond calon newydd mewn unigolion a'r rheini'n gwneud gwahaniaeth – gweld bod Iesu Grist yn driw i'w air a bod y Beibl yn ddibynadwy; gweld bod pechadur yn cael ei gyfrif yn gyfiawn ar sail gwaith perffaith gorffenedig Iesu Grist ac nid ar sail sigledig gweithredoedd dynol; gweld bod gweddi'n anadl y bywyd i'r ailenedig; gweld yn glir fod nefoedd o'n blaenau a hynny'n obaith a llawenydd i ni.

Gwelodd teulu Jesse Griffiths o Ystumtuen y newid hwn pan ddaeth ef a'i gyflog adre i'w wraig yn lle'i wario i gyd yn y tafarndai ar ei ffordd adre o'r gwaith.

Dywedir bod Dr Martyn Lloyd-Jones yn ei ddyddiau olaf wedi cael ymweliad gan gyfaill a gydymdeimlai wrth ei weld yn "weary and worn and sad", chwedl yr emyn. Ymateb y Dr ar unwaith i'w gywiro: "Not sad! Weary and worn but not sad!" A daw geiriau emyn arall i gof: "Gobaith wedi rhyfel caled / y caf drugareddfa lân". Mae tröedigaeth neu ailenedigaeth yn newid 'crefydd' o fod yn gyfrifoldeb i fod yn llawenydd a mwynhad: "O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi, / daeth Iesu i'm calon i fyw".

Mae hynny'n dod â ni at y cwestiwn: "Ble ydyn ni'n sefyll?" Mae angen y profiad hwn ar bob un ohonom i gael sicrwydd cadwedigaeth ac mae o dragwyddol bwys i bob un ohonom. Wedi i'r *Titanic* suddo yn 1910, codwyd rhestr hir o enwau ar y wal yn swyddfa'r cwmni llongau yn Lerpwl. Roedd arni bob math o bobol: yr enwog a'r dinod, cyfoethogion a morwyr tlawd a phob lliw croen. Ond dim ond dwy golofn oedd o bwys: un yn rhestru'r rhai a foddwyd a'r llall y rhai a achubwyd.

A'r cwestiwn i ni yw: "Ar ba restr y byddwn ni?" A fyddwn ni yng nghwmni'r morynion ffôl neu'r rhai call?

Arglwydd, paid â gadael i mi
ymfodloni heb y gwir,
Lamp heb olew a ddiffodda
yn y treial mawr cyn hir.
Rho im olew
yn fy llestr gyda'm lamp.

Gweddi yw'r ateb, i ni fel unigolion ac i Gymru unwaith eto: "Mae drws trugaredd heb ei gau". Diolch Iddo!

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Gofalaeth y Garn, Gogledd Ceredigion

**Yn sgil ymddeoliad y gweinidog presennol ddiwedd Awst 2024, mae eglwysi'r ofalaeth uchod yn awyddus i alw gweinidog.**

**Gwahoddir gweinidogion ordeiniedig neu rai dan hyfforddiant i gysylltu am ragor o fanylion ag Ysgrifenyddion y Pwyllgor Bugeiliol:**

Yr Athro Gruffydd Aled Williams:
e-bost: gawilliams1@btinternet.com;
ffôn: 01970 820664;

Marian Beech Hughes –
e-bost: marian_hughes@btinternet.com;
ymholiadau@capelygarn.org;
ffôn: 01970 828662/ 07863 127448

erbyn 31 Rhagfyr 2024

# Dilyn ôl troed y Samariad Trugarog



Fel rhan o'r ymgyrch llanw bocsys eleni llanwodd aelodau Gofalaeth Caron a'u cyfeillion 89 bocs o nwyddau i'w dosbarthu yn y gwledydd datblygol.

Enw'r ymgyrch yw 'Operation Christmas Child – Samaritan's Purse' sy'n pwysleisio Cristnogaeth ymarferol a phwysigrwydd rhoi yn hytrach na derbyn. Mae'r prosiect yn seiliedig ar ddameg y Samariad Trugarog. Mae gwylio fideo yn flynyddol a gweld wynebau'r plant wrth iddynt agor y bocsys yn rhoi pleser i'r rhai fu wrthi'n paratoi.

Bob blwyddyn, mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ardaloedd sydd wedi eu dewis yn ofalus drwy ymgynghoriad trylwyr gan swyddogion ar lawr gwlad. Diolch i Gareth Jones, Lletypoeth, Llanddewibrefi (Gareth Pant), am gludo'r cyfan i Eglwys Sant Mihangel, Aberystwyth, y man casglu.

Bydd y rhai mwyaf craff ohonoch yn gweld nad oes 89 bocs yn y llun. Mae hynny oherwydd bod 7 bocs wedi eu llanw ar-lein. Dymuna'r Gweinidog, y Parch Carwyn Arthur, ddiolch i bawb am eu haelioni eto eleni a hefyd am gyfrannu £5 y bocs ar gyfer eu cludo i'r dewis wledydd.

*Eirwen James*

# Datganiad CWM ar yr Argyfwng Dyngarol yn y Dwyrain Canol, Tachwedd 2024

Fe gyfarfu Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang (CWM) yn Singapore ar 11–12 Tachwedd. Agorwyd y cyfarfod gan Lywydd CWM, Dr Natalie Lin, gyda myfyrdod ar Salm 33, sy'n pwysleisio cyfiawnder a natur arhosol cenhadaeth Duw. Ymysg y penderfyniadau allweddol oedd i'r Bwrdd dderbyn a chefnogi datganiad yn mynd i'r afael â'r argyfwng dyngarol sy'n dwysáu yn y Dwyrain Canol.

Mae CWM yn bartneriaeth fyd-eang o 32 o eglwysi Cristnogol sydd wedi ymrwymo i rannu eu hadnoddau mewn arian, pobl, doniau a gweledigaeth er mwyn cyflawni cenhadaeth Duw yn lleol. Mae'n cynnwys pedwar enwad yng Nghymru, sef Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig a'r Ffederaliaeth Gynulleidfaol.

Mae Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM) yn bryderus iawn am y gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol a'r trais cynyddol sy'n effeithio ar Gaza a Libanus. Yn drist iawn, mae'r gwrthdaro hwn wedi hawlio bywydau dros 51,000 o Balesteiniaid yn Gaza a dros 2,000 yn Libanus, ac mae tua dwy filiwn o drigolion Gaza wedi'u dadleoli, yn ogystal â miliwn o drigolion Libanus. Mae'r dinistr i fywydau, cartrefi, a seilwaith hanfodol yn ein tristáu'n fawr, ac yn galw am weithredu di-oed ar sail tosturi, cyfiawnder, ac egwyddorion dyngarol.

Ar ben hynny, rydym yn bryderus iawn am y newidiadau yng ngwleidyddiaeth yr Unol Daleithiau a thawelwch parhaus gwledydd eraill ledled y byd yn wyneb yr hil-laddiad sy'n datblygu yn Gaza. Rydym yn cefnogi'r holl bobl ddiniwed y mae'r argyfwng hwn yn effeithio arnynt—yn enwedig y rhai yn Gaza, Libanus, a hyd yn oed Israel—sydd wedi cael eu dal yn y don hon o ddioddefaint a cholled. Mae pob math o drais, boed yn gyrchoedd awyr, yn ymosodiadau gan rocedi, neu'n ymosodiadau ar lawr daear, yn golygu bod y dioddefaint yn parhau a chylch y boen a'r dinistr yn cael ei ymestyn.

- Rydym yn galw am gadoediad ar unwaith rhwng pob ochr a blaenoriaethu'r elfennau dyngarol trwy ganiatáu i gymorth gyrraedd Gaza a Libanus yn ddirwystr. Mae sicrhau'r mynediad uniongyrchol hwn at gymorth hollbwysig – bwyd, dŵr, cyflenwadau meddygol, a lloches – yn hanfodol ar gyfer diogelu bywyd a lleddfu dioddefaint niferoedd mawr o bobl ddiniwed.
- Rydym yn annog pawb sydd ynghlwm â'r sefyllfa—Israel, Hamas, Hezbollah, ac eraill—i ymrwymo i siarad a thrafod fel yr unig lwybr ymarferol tuag at heddwch parhaol a diogelu bywydau.
- Rydym yn condemnio'r Unol Daleithiau a llywodraethau gwledydd Ewrop yn gryf oherwydd eu cefnogaeth mewn arfau i Israel. Trwy gyflenwi arfau soffistigedig heb oruchwyliaeth lem, mae'r cenhedloedd hyn â rhan yn y dioddefaint a'r dinistr parhaus a wynebir gan bobl gyffredin dirifedi yn Gaza a Libanus.
- Rydym yn galw am atal trosglwyddo arfau o'r fath ar unwaith ac yn annog y llywodraethau hyn i ganolbwyntio yn hytrach ar hyrwyddo heddwch a sefydlogrwydd drwy ddulliau diplomyddol.
- Rydym yn condemnio cyfryngau'r Gorllewin am eu hadroddiadau rhagfarnllyd, eu sylw dethol i ddigwyddiadau, a'u naratifau camarweiniol, sy'n aml yn fframio neu'n trin y sefyllfa mewn modd sy'n cuddio'r cymhlethdodau hanesyddol a chymdeithasol-wleidyddol dyfnach.
- Rydym yn eu condemnio am ledaenu stereoteipiau am Balesteiniaid a chyfiawnhau'r trais. Mae eu methiant i gyfleu safbwyntiau cytbwys sy'n amlygu dioddefaint pobl ddiniwed neu herio deinameg grym yn eu gwneud yn rhan annatod o gyflawni'r trais.
- Rydym yn galw ar y Cenhedloedd Unedig a sefydliadau rhyngwladol eraill i ddwysáu eu cynlluniau heddwch trwy ddefnyddio'u dylanwad i gynnull yr holl randdeiliaid perthnasol at ei gilydd a hwyluso datrysiad ystyrlon a pharhaol i'r gwrthdaro parhaus hwn.

Yn ogystal, rydym yn annog y gymuned fyd-eang yn gryf i gynnal undod wrth ddarparu cymorth dyngarol, gan flaenoriaethu ymdrechion diplomyddol sy'n meithrin heddwch ac yn diogelu bywydau poblogaeth fregus y Dwyrain Canol.

Anogwn arweinwyr Cristnogol i godi eu llais ynghylch yr anghyfiawnderau sydd yn y Dwyrain Canol a sefyll yn erbyn pob ffurf ar Seioniaeth Gristnogol. Galwn ar eglwysi a chymunedau ffydd ledled y byd i ymuno â ni mewn gweddi am heddwch, cyfiawnder, a chymod yn y rhanbarth hwn.

Gweddïwn hefyd dros ddioddefwyr y gwrthdaro hwn, yn enwedig y merched, y plant, a'r rhai mwyaf agored i niwed, y byddant yn gallu goresgyn y trychineb hwn a chanfod cysur yng nghanol y cythrwfl. Wrth i Gristnogion baratoi at dymor yr Adfent, cawn ein hatgoffa o'i neges ddofn o heddwch a bywyd. Mae'r amser cysegredig hwn yn galw arnom i fod yn dangnefeddwyr mewn byd sy'n llawn gwrthdaro ac i feithrin gobaith am ddyfodol lle mae heddwch yn teyrnasu.

Rydym yn parhau'n gadarn ein cred fod heddwch yn bosibl trwy dosturi ac undod, hyd yn oed o fewn y rhaniadau dyfnaf. "Hyn yw trugaredd calon ein Duw – fe ddaw â'r wawrddydd oddi uchod i'n plith, i lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch cysgod angau, a chyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd." (Luc 1:78–9)

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Henaduriaeth Môn

## Swyddog Ymestyn Allan Henaduriaeth Môn

**Mae Henaduriaeth Mon yn chwilio am berson egnïol a brwdfrydig i weithio gydag eglwysi'r henaduriaeth i ddarparu gweinidogaeth i blant, ieuenctid a theuluoedd yr ynys**

Oriau: 35 awr yr wythnos (neu oriau i'w trafod)

Cytundeb: 2 flynedd yn y man cyntaf
gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

Cyflog: Graddfa 31-35 (£31,214 – £33,051)
a chyfle i ymuno â phensiwn EBC

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch gyda:-
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
Ffôn: 02920627465

# ‘Wyneb Newydd 2024’: codi merched i arwain ac ysbrydoli

Rhaglen ddwy flynedd wedi ei chynllunio ar gyfer merched o gefndir lleyg ac ordeiniedig yw rhaglen ‘Wyneb Newydd’ Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (Council for World Mission, CWM). Mae’r cynllun yn cynnig cyfle i archwilio arweinyddiaeth fenywaidd mewn ffordd ddofn ac ystyrlon. Yn ogystal â hyn, mae cyfle i archwilio rhai mannau lle gall merched gyfrannu mewn ffordd ffrwythlon ac effeithiol mewn gwahanol gefndiroedd diwylliannol.

Wedi treulio peth amser yn Nhaiwan ym mis Tachwedd 2023, daeth cynrychiolaeth o 13 o ferched i dderbyn croeso eglwysi sy’n perthyn i CWM â chynulleidfaoedd yng Nghymru, sef yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a’r Ffederaliaeth Gynulleidfaol.

Yma fe gawn argraffiadau dwy ferch sy’n gweinidogaethu yng Nghymru yn sgil yr ymweliad. Addasiad ydyw o’r hyn a rannwyd ganddynt ar *Munud i Feddwl*, Radio Cymru, yn ddiweddar.



Dwi’n hoffi meddwl nad ydw i’n un sy’n cwyno gormod! Dwi’n trio gwerthfawrogi pethau a chanolbwyntio ar y cadarnhaol. Mi fasech chi’n gallu deud fy mod i’n berson gwydr hanner llawn! Ond dwi wedi cael fy hun yn cwyno mwy na’r arfer yn ystod y pythefnos dwytha – a fy mhoen ydy’r tywydd! Mae hi wedi oeri’n rhy sydyn; mae hi’n rhy wlyb, a dwi wedi gorfod rhoi’r gwres ymlaen! Dwi wedi diflasu fy hun, a deud y gwir, efo’r holl gwyno.

Fedrwn ni ddim newid y tywydd – ond mi fedrwn ni newid sut rydyn ni’n ymateb iddo fo. Fedrwn ni mo’i newid o, medden ni. Ac eto, mi fedrwn ni ddeud fod pobol yn newid hinsawdd y byd; mae gwyddonwyr yn gallu dangos hynny i ni. Ac mae yna gyfleon yn cael eu colli o hyd i fod yn ddewr yn ein gweithredu i arbed rhagor o gynhesu byd-eang. Tybiwn mai felly y bydd hi eto yn Azerbaijan ar hyn o bryd yng nghyfarfod COP 29.

Roeddwn i yn y Bala yn ddiweddar mewn cyfarfod ffarwél i griw o dros ddwsin o weinidogion benywaidd oedd yn dod o wledydd ar draws y byd. Roeddent wedi bod yn ymweld â Chymru yn ystod y tair wythnos diwethaf i weld y gwaith y mae capeli’r Annibynwyr a’r Presbyteriaid yn ei wneud ac i ddeall ein cyd-destun. Roedden nhw hefyd yn rhoi awgrymiadau i ni wrth symud ymlaen. Cawsom eu croesawu i eglwys Noddfa yng Nghaernarfon ac roedd yn wych cael sgwrsio a dysgu am eu gwaith a’u cyd-destun hwy yn eu heglwysi yn Zambia, Zimbabwe, Madagascar, y Caribî, Seland Newydd ac Ynysoedd y Môr Tawel.

Roedd dwy yn dod o Kiribati, casgliad o ynysoedd yn y Môr Tawel. Eu neges nhw i ni oedd na fydd Kiribati yn bodoli o fewn llai na hanner canrif gan y bydd lefelau’r môr wedi codi a’r tir wedi ei golli i’r môr. Mae pobol Kiribati yn byw efo realiti newid hinsawdd bob diwrnod. Mae’n anodd i ni ddychmygu effaith mor drychinebus, ond rhaid deffro i’r sefyllfa a chydnabod fod beth sy’n digwydd mewn un rhan o’r byd yn effeithio ar rywun ar ochor arall y byd.

Wrth i arweinwyr gwledydd y byd gyfarfod yn Azerbaijan yr wythnos yma [11–22 Tachwedd] ac i ninnau barhau i ddiolch a gwerthfawrogi creadigaeth anhygoel Duw, bydd cyfle i gofio am effaith newid hinsawdd ar draws ein byd yn ein gwasanaethau, dwi’n siŵr. Ond mae angen mwy na chofio: rhaid gweithredu hefyd – a meddwl bob dydd: a ydw i’n byw mewn ffordd sy’n garedig i’r greadigaeth ac i’m cymdogion byd-eang, a’m chwiorydd a’m brodyr ledled daear?

*Mererid Mair*
*Caernarfon*

Cefais innau’r fraint fawr am bythefnos yn niwedd Medi o gael cwmni criw o 13 o ferched sy’n arwain mewn eglwysi ar hyd a lled y byd ac sydd wedi bod yma yng Nghymru gyda ni. Merched o eglwysi’n perthyn i CWM (Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang) oedden nhw – yn Zambia, Zimbabwe a Madagascar o gyfandir Affrica; merched o Trinidad a Tobago yn y Caribî; a merched o Awstralia, Seland Newydd ac ynysoedd Kiribati yn y Môr Tawel.

Ar ddiwrnod braf, hydrefol yn y Bala cawsom gyfarfod arbennig iawn lle daeth cyfle i ni fel arweinwyr eglwysig o Gymru wrando ar eu profiadau a’u hargraffiadau wrth i’w cyfnod yma gyda ni ddirwyn i ben.

Rydyn ni’n tybio ein bod yn adnabod ein hunain mor dda, ond o wrando ar eu cwestiynau syml ond tu hwnt o onest a threiddgar, fe ddechreuais adnabod ein sefyllfa ni ein hunain o bersbectif gwahanol. Heb ddisgwyl ateb, dyma rai o’r cwestiynau a ofynnwyd i ni:

1. Rydyn ni wedi clywed llawer am eich hanes fel cenedl ac fel eglwysi, ond beth yw eich gweledigaeth i’r dyfodol?
2. Pam fod eich eglwysi sydd angen bywyd wedi eu hamgylchynu gan y meirw mewn mynwentydd?
3. Ai eich angerdd dros eich adeiladau ydy’r etifeddiaeth rydych chi am ei throsglwyddo a’i rhannu gyda’r genhedlaeth nesaf?
4. Sut ydych chi’n cael arian i gynnal eich gwaith a’ch cenhadaeth os nad ydych chi’n annog pobl i roi?


Cwestiynau amlwg oedd y rhain, wedi cael eu gofyn yn annwyl o brofiad personol y merched a fu yma yng Nghymru gyda ni am gyfnod byr. Criw o ferched y gwnes i dyfu i’w parchu a’u gwerthfawrogi am eu holl ymdrechion yn eu heglwysi eu hunain, lle nad yw hi bob tro mor hawdd i fod yn ferch sy’n arwain. Mi fyddaf yn diolch am waddol eu cwestiynau a fu’n rhodd i mi ac i arweinwyr eraill a fu yn eu cwmni yn y Bala.

*Nan Wyn Powell-Davies*

Gellir dod o hyd i erthygl a rhagor o wybodaeth am y prosiect o ddilyn y ddolen hon: [A New Face 2024: Building women as spiritual catalysts – Council for World Mission]

# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones (Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

## 11 Ailymweld â'r cymeriadau

Cyn i ni gloi'r astudiaethau ar Lyfr Ruth y tro nesaf, heddiw fe wnawn ni ailymweld â chymeriadau'r llyfr o gyfeiriad y naratif llawn. Gwelwn fod patrwm arbennig yma yn y cymeriadau. Ceir sawl pâr o gymeriadau mewn perthynas arbennig â'i gilydd, gan ddechrau ag Elimelech a Naomi sy'n gadael cartref er mwyn byw yng ngwlad Moab dros gyfnod y newyn yn Jwda.

Wrth i'r hanes ddatblygu ac wrth i'w hamgylchiadau ddwysáu ym marwolaeth Elimelech, mae Naomi yn weddw ac mae Mahlon a Chilion wedyn yn priodi Ruth ac Orpa, merched Moab. Ond tristwch ar ben tristwch, erbyn adnod 5 yn y bennod gyntaf, mae Mahlon a Chilion wedi marw. Yn hyn i gyd mae Naomi yn cofio am ei chartref ym Methlehem ac yn penderfynu dychwelyd yno. Ei bwriad ydy gadael ei merched yng nghyfraith hefo'u pobl ym Moab, ond fel arall mae'r ddwy yn teimlo. Maent yn benderfynol o'i chanlyn. Ond ateb Naomi iddynt, os cofiwch, ydy dweud wrthynt am fynd adref yn ôl gan ddymuno i'r ddwy gael 'cartref gyda gŵr' (1:9). Mae Orpa yn gwrando 'ond glynodd Ruth wrthi' (adn. 14).

Wrth gyrraedd Bethlehem, mae perthynas Naomi a Ruth yn datblygu ymhellach. Ac yn y caeau haidd mae Ruth yn cyfarfod Boas, a Naomi'n hyrwyddo'r berthynas honno, a hynny oherwydd ei dealltwriaeth o ddeddfau ac arferion Israel. Y pâr olaf o gymeriadau ydy Boas a'r 'perthynas agosaf' – cymeriad nad yw'r awdur yn rhoi enw iddo a hynny, mae'n debyg, am nad yw'n barod i ymgymryd â'i gyfrifoldeb.

Mae'r cyfan a ddarllenwn am Ruth ac Orpa yn anrhydeddus, a thra mae Orpa yn gwrando ar Naomi ac yn mynd yn ôl at ei phobl, yn anfoddog mae hi'n gwneud hynny. Dymuniad y darllenydd wrth ddarllen hanes Orpa ydyw ei bod, wrth fynd yn ôl adref, wedi cael, 'cartref gyda gŵr' (adn. 9).

Mae'r hanes wedyn yn symud ymlaen hefo Naomi a Ruth; mae'r ddwy yn cyrraedd Bethlehem ar ddechrau'r cynhaeaf haidd ac yn cyfarfod â'u hangen am fwyd drwy gynnig Ruth i fynd i loffa i'r caeau. Yn nigwyddiadau'r caeau ŷd mae Naomi yn gweld cyfle i newid eu hamgylchiadau. Ac yma down i adnabod cymeriad Naomi mewn gwirionedd, wrth iddi lywio Ruth i gyfeiriad Boas.

Er mwyn i'r closio at Boas ddod yn ffaith go iawn, roedd yn rhaid dod â chymeriad arall i sefyll ochr yn ochr â Boas, sef y 'perthynas agosaf'. Yma gwelwn ddoethineb Boas a'i fod yn byw i ystyr ei enw, *chayil*, sy'n golygu 'cryfder nerthol' ond hefyd 'llwyddiant'.

O ran cymeriadau eto mae'r llyfr yn gorffen efo achau. Pam? Er mwyn dangos bod yna rai enwau fydd yn aros – a hynny oherwydd teyrngarwch a ffyddlondeb. Daeth Boas a Ruth yn rhieni i Obed, yn daid a nain i Jesse, ac yn hen daid a nain i'r Brenin Dafydd, ac felly'n rhan o linach Iesu Grist.

Ac wrth droi at y bennod gyntaf yn Efengyl Mathew ac edrych i lawr yr adnodau down ar draws merched arbennig yn llinach Iesu Grist. Yma mae Tamar, gafodd ei thwyllo gan Jwda ac wedyn yn geni plentyn iddo drwy ei chyfrwystra ei hun. Rahab oedd hefyd o gefndir amheus, ond yn fam i Boas. Ruth, yr estrones o Foab, gwlad y gelyn, ond yn fam i Obed. Ac wedyn Mair, oedd yn fam ddibriod ond a genhedlodd Fab Duw.

Duw felly'n cymryd cymeriadau cyffredin, yn eu trawsnewid ac yn dod â digwyddiadau anghyffredin i fod trwyddynt. Dyma'n gobaith ninnau.

**Cwestiwn i'w drafod:**
Sut ydych chi'n uniaethu â'r cymeriadau yn Llyfr Ruth?

S4C
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 24 Tachwedd am 7:30yh**
Nia Roberts yn cyflwyno gwledd o ganu mawl o addoldai ledled Cymru. Cawn gyfle i fwynhau rhai o'n hoff emynau, yn cynnwys tonau poblogaidd fel 'Blaenwern' a 'Cwm Rhondda'. A bydd perfformiadau hudolus gan Ffion Emyr ac Ensemble Aberteifi.

BBC radio cymru
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 24 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Megan Williams

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 24 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Elin Maher, Casnewydd




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# O Gefn Gwlad

## Bwyta'r lotus

Wn i ddim be sy'n gwneud i rywbeth o dro i dro ddod i'r meddwl a gwrthod ymadael oddi yno. Mae'n digwydd i bawb, dwi'n credu; mae'n digwydd i mi beth bynnag. Ac yn ddiweddar, heb unrhyw reswm y gallwn feddwl amdano, daeth y ddwy linell yma i fyw yn fy mhen, a gwrthod symud oddi yno. Dyma nhw:

There is sweet music here that softer falls
Than petals from blown roses on the grass.

Yr hyn wnes i ei ystyried gyntaf oedd fod y bardd yn ei gor-ddweud hi. Does yna ddim sŵn pan fydd petalau'n disgyn ar y glaswellt. Felly, sut fasai neb yn clywed cerddoriaeth o'r fath? Ond dyna fo, mae gan fardd yr hawl i'w gor-ddweud hi, debyg, ac mae'n swnio'n dda beth bynnag.

Mi gofiais pwy oedd y bardd – Tennyson, un y byddai rhai'n dweud am ei farddoniaeth ei bod y tu hwnt o siwgwraidd a'i fod yn hoffi sŵn geiriau yn fwy na'u hystyr. (Mae 'The moan of doves in immemorial elms/ And murmuring of innumerable bees' yn enghraifft dda o hyn.) Ac mi wyddwn am y gerdd 'The Lotos Eaters'. Rhaid mod i rywbryd wedi ei hastudio mewn cwrs ysgol neu goleg gan y gallwn ddyfynnu llinellau eraill ohoni.

Stori'r gerdd yn fyr yw hyn – ac mae'n perthyn i un o'r chwedlau oesol. Roedd milwyr Odysseus (yr arwr Groegaidd) yn hwylio adre 'rôl brwydro hir, ac wedi blino'n lân. Gwelsant dir a dyna lanio yno, nid gartref ond ar ynys lle y trigai'r *Lotos eaters*, trigolion oedd yn bwyta ffrwyth y lotus, a daethant â pheth o'r ffrwyth i'r milwyr blinedig hyn. Cyffur oedd y lotus, ac fe yrrwyd y milwyr gan ei effaith i lefel arall o fywyd, oedd yn heddychlon braf ac yn eu gwneud yn ddi-hid o frwydrau'r byd. Roedd yn peri iddyn nhw deimlo mai hwn oedd y bywyd perffaith iddyn nhw, yn enwedig ar ôl iddyn nhw fod yn rhyfela cyhyd.

Doedden nhw ddim am symud oddi yno, na phoeni am neb na dim. Pam y dylsai bywyd fod yn frwydr drwy'r amser ac yn ymdrech barhaus? Meddent:

death is the end of life;
ah, why should life all labour be?

Ydi, mae hi'n gerdd dda, yn creu awyrgylch o ddihidrwydd tangnefeddus. Ond pam sôn amdani yma?

Un rheswm yn unig, ac un dyfyniad arall sy'n dod i'r meddwl, sef yr un gan Karl Marx: 'Crefydd yw cyffur (opium) y werin.'

Ai dyna yw ein crefydd i fod? Cyffur i leddfu poenau bywyd ac i greu ynom fodolaeth o anghofrwydd dihidio? Ystyriwn am funud yr holl ddioddef sydd yn y byd. Lle bynnag y mae dynoliaeth y mae yna ddioddef, ar lefel bersonol ac ar lefel dorfol. Sawl un o ddarllenwyr *Cenn@d* sy'n dioddef o ryw gyflwr corfforol neu'i gilydd, tybed? Sawl unigolyn mewn bywyd sy'n cael y bywyd hwnnw yn ddim ond brwydr a gorthrwm, ac ymdrech barhaus yn erbyn c'ledi o bob math – newyn, tlodi, rhyfel, afiechyd, anobaith, ac enwi dim ond rhai pethau? Onid chwilio am y cyffur yr ydym, bob un ohonom?

Mae rhai, yn anffodus, yn ei gael mewn cyffuriau go iawn, boed yn gocên neu heroin neu un o'r cant a mil o gyffuriau sy'n cael eu cynhyrchu a'u gwerthu gan ddrwgweithredwyr annynol y dyddiau hyn, a hynny ledled ein gwlad? Ond oni all crefydd fod yr un fath i ninnau? Gyda llai o ganlyniadau corfforol, mae'n wir, ond gyda'i effaith lesmeiriol ar ein ffordd o edrych ar fywyd ac ar broblemau'r byd?

Oni all clywed a chredu i Grist farw trosom, ein gwared o'n pechod, a sicrhau i ni, heb i ni wneud dim yn ein haeddiant ein hunain, fywyd tragwyddol, a maddeuant o'n pechodau, oni all hynny fod yn fodolaeth o anghofrwydd am y byd a'i broblemau ar ynys dangnefeddus y lotus?

Wedi'r cyfan, o ddyfynnu eto:

What pleasure can we have
To war with evil? Is there any peace
In ever climbing up the climbing wave?

Onid gwell, o ddefnyddio darlun Tennyson, yn hytrach na brwydro yn nhonnau gormes bywyd, yw gorwedd ar draeth y sicrwydd crefyddol o fywyd tragwyddol heb orfod gwneud dim ond credu?

*Elfyn Pritchard*

# Gwasanaeth Chwiorydd Henaduriaeth Myrddin

Prynhawn Mercher, 23 Hydref, daeth Chwiorydd Henaduriaeth Myrddin at ei gilydd mewn addoliad yn y Babell / Zion Newydd, Caerfyrddin. Dilynwyd y gwasanaeth o Lyfr Thema'r Chwiorydd 2024, 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd'.

Cymerwyd rhan gan aelodau o gapeli'r dosbarthiadau, gyda Mrs Helen Gibbon wrth yr organ, ac fe gafwyd gwledd o foliant. Diolchodd y Llywydd, Mrs Elizabeth Jackson, i bawb am eu cyfraniad, ac i aelodau'r Babell / Zion Newydd am eu croeso.

Yn ôl yr arfer, yn dilyn yr oedfa, cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned, gyda phawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at ein hoedfa nesaf.

*Elinor Wyn Nicholson*



## Clwb Pêl-fasged Tegid

Dyma gymryd y cyfle i dynnu sylw at glwb pêl-fasged newydd sydd wedi ei sefydlu yn y Bala. Mi gychwynnwyd y clwb gan Cameron Jones o Goleg y Bala a Meredydd Jones, cyn-athro chwaraeon yn ysgol Godre'r Berwyn. Mae'r clwb yn mynd o nerth i nerth ac ar ôl blwyddyn mae'r tîm dan 16 oed wedi dechrau chwarae'n gystadleuol. Fe gafwyd y gêm gyntaf nos Fawrth, 24 Medi, ac fe enillodd tîm dan 16 oed Clwb Pêl-fasged Tegid 49–39 yn erbyn tîm yr Ynys Môn Celts o Gaergybi. Ar 8 Hydref fe chwaraeodd y tîm yn erbyn tîm y Mold Magic o'r Wyddgrug ac ennill eto, 60–46!

Mae'r tîm wedi cymryd camau mawrion, ac rydym wedi gweld bendith o greu'r tîm newydd. Ym mis Ionawr eleni cawsom git chwarae, a chreu proffiliau cyfryngau cymdeithasol ar Instagram a Facebook. Chwaraeom ein gêm gyfeillgar gyntaf, tîm dan 16 Bala yn erbyn tîm dan 16 CIC Craig Blaenau, gan fod chwaraewyr o'r ddwy ardal wedi arwyddo i Glwb Pêl-fasged Tegid. Trefnwyd y gêm gyfeillgar er mwyn arfer â theimlad chwarae gêm iawn, ac roedd yn llwyddiant gan fod y ddau dîm wedi mwynhau'r gystadleuaeth. Dyfarnais i'r gêm ac roedd cadw sgôr yng ngofal ysgrifennydd y clwb. Roedd arweinwyr Craig yn hyfforddi eu hochr nhw yn erbyn y Bala, a arweiniwyd gan un o'n gwirfoddolwyr dan 18 oed. Fe greodd hyn ragor o frwdfrydedd at bêl-fasged yn yr ardal, gan orffen y flwyddyn addysgol ar nodyn uchel, cyn ymuno â'r gynghrair bresennol y tymor hwn.

Rydym wedi llwyddo i ymuno â Chymdeithas Pêl-fasged Gogledd Cymru, ac wedi chwarae ein gêm gystadleuol gyntaf yn erbyn Celtiaid Ynys Môn Celts, gan ennill. Roedd y cyffro yn wych er mwyn codi ysbryd y tîm a'u brwdfrydedd am y gamp.

Ar hyn o bryd mae'r hyfforddi yn digwydd rhwng 4pm a 5pm ar ddydd Iau, ond efallai y bydd hynny'n newid eleni wrth i'r clwb barhau i dyfu. Rydym yn gweld cynnydd yn y niferodd, ac mae hyn yn beth gwych ond eto'n heriol wrth i ni orfod meddwl am wahanu i ddau grŵp oed gwahanol, gyda'r rhai dan 16 yn hyfforddi rhwng 4pm a 5pm, a'r rhai dan 14 yn cael ei gynnal rhwng 5pm a 6pm ar ddydd Iau. Bydd hyn yn creu cyfle i dargedu eu lefelau gallu a sgìl gydag ymarferion penodol a gemau.

Ar wahân i'r gamp ei hun, bydd cael mwy o amser gyda'r gwahanol oedrannau hefyd yn gwella fy mherthynas â'r chwaraewyr. Bydd hyn o fudd i mi fel hyfforddwr allu darparu ar gyfer eu hanghenion, i wella a datblygu, yn ogystal â dod i nabod y plant yn well. Mae'r cysylltiad sydd gan rai ohonyn nhw efo'r Coleg â'i gyrsiau a'r clybiau CIC hefyd yn gwneud hynny ac yn gyfle i rannu am ein ffydd yn Iesu. Ond, rwyf wir yn credu bod chwaraeon a'r gystadleuaeth yn denu rhagor o unigolion na fuaswn yn eu cyfarfod fel arall, na bod yn rhan o'u bywyd. Mae chwaraeon yn gallu



dod â phob math o blant at ei gilydd, a gallaf ddweud yn hyderus bod y tîm pêl-fasged yn estyn allan ymhellach i'r gymuned nag oedd yn bosibl o'r blaen.

Mae dau aelod newydd o'r criw pêl-fasged bellach yn dod i'n gwasanaethau ar y Sul. Daeth un yn gyntaf am iddo ddod i'r hyfforddiant pêl-fasged. Dechreuodd unigolyn arall ddod i'r gwasanaeth am fod un o'r merched sy'n mynd wedi ei gwahodd. Daeth yno un wythnos ac eistedd gyda'i ffrind, a chael cymdeithas yn nheulu'r eglwys. Dyma ddau o'r aelodau sy'n dod i hyfforddi gyda Chlwb Pêl-fasged Tegid a roddodd reswm iddyn nhw fod yn rhan o deulu'r eglwys yn lleol. Rwy'n parhau i weddïo y bydd yna ffrwyth yn y gymuned yn ogystal â bod hon yn ffordd i bobl ddechrau ar eu taith i ddod i nabod Iesu a thyfu yn eu ffydd.

*Cameron Jones*
*Is-warden*
*Canolfan Ieuenctid, Plant a Theuluoedd*
*Coleg y Bala*

## Dyma fy Nghartref

'Ydych chi isio gweld llun o 'nghartref?" gofynnodd y gŵr ifanc. Roedd hithau'n anelu am y drws ar ddiwedd y cyfarfod, ond trodd yn ôl. Dangosodd yntau'r llun iddi ar ei ffôn. Roedd yn ymddangos fel diffeithwch anial gydag ambell dwr o rwbel yma a thraw.

'Hwnna,' meddai, gan bwyntio at domen o frics a llwch. 'Hwnna oedd fy nghartref. Daeth y milisia a llosgi pob tŷ yn y pentref. Lladdwyd fy chwaer a'i phedwar o blant bach.'

'Beth am dy rieni?' gofynnodd hithau, yn methu gwybod beth i'w ddweud. 'Dwn i ddim ble mae Mam. Dw i wedi colli cyswllt.'

Mewn ystafell mewn eglwys ym Mangor y digwyddodd y sgwrs, eglwys lle mae criw o wirfoddolwyr yn cyfarfod ffoaduriaid a cheiswyr lloches bob wythnos i gynnig cefnogaeth, cwmnïaeth a chymorth ymarferol i griw sydd wedi glanio o Affrica, y Dwyrain Canol ac Afghanistan ac yn byw ar £70 yr wythnos. O Sudan y daeth y dyn ifanc hwn, a Duw a ŵyr sut y cyrhaeddodd dros dir a môr gyda'i Saesneg prin. Mae rhyfel cartref ffiaidd yn rhwygo'r wlad a does neb am ymyrryd na neb yn adrodd y stori.

Yn yr un ystafell roedd gŵr hŷn, academydd yn ei wlad ei hun, ar ei ffôn drwy'r nos yn ceisio cael gwybodaeth am ei deulu wrth i daflegrau lawio ar eu cartrefi. Roedd brawd iddo wedi ei gipio oddi ar y stryd rai wythnosau'n gynt gan swyddogion cudd y llywodraeth ac roedd o a'i deulu'n disgwyl y gwaethaf. Go brin y gwelant ef fyth eto, achos dyna mae'r llywodraeth fileinig yn ei wneud efo pobol sy'n gwrthod plygu glin i'r Clerigwyr Shïaidd sy'n rhedeg y sioe.

Pobol fel y rhain sy'n derbyn croeso gan yr eglwys hon ydi'r bygythiad mwyaf i 'ffordd o fyw' Prydain Fawr yng ngolwg gwleidyddion yr Adain Dde. Yn wir, mae gan Kemi Badenoch, arweinydd y Blaid Dorïaidd, y cynllun mwyaf manwl erioed i ddelio gyda'r perygl eithafol hwn, meddai hi.

Ond tra pery'r argyfwng Newid Hinsawdd i droi tir sych yn anialdir crasboeth ar un llaw a boddi arfordiroedd isel ar y llaw arall, a thra phery tlodi, newyn a rhyfeloedd, dianc fydd pobl – yn eu miliynau, i chwilio am y man gwyn fan draw; chwilio am ryw fath o loches, rhyw fath o ddiogelwch. Wrth gwrs. Beth arall wnân nhw, mewn difrif calon?

Mewn ysgoldy moel ym Mhen Llŷn dyfynnodd y Dr Gwyn Williams, Chwilog, eiriau Martin Luther King: 'All y tywyllwch ddim gorchfygu tywyllwch; dim ond y golau all wneud hynny. All casineb ddim gorchfygu casineb; dim ond cariad all wneud hynny.' Neu, fel y dywedodd Iesu yn Efengyl Mathew, 'Trugaredd a ddymunaf, nid aberth'.

*Alun Ffred* (o wefan Cristnogaeth21)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru